

GIG 111 Cymru

NHS 111 Wales

Y Gwasanaeth 111

Gwasanaeth i bobl sydd ddim yn gallu siarad na chlywed ar y ffôn

Mae dwy ffordd wahanol o ddefnyddio'r gwasanaeth 111 i bobl sydd ddim yn gallu siarad na chlywed ar y ffôn:

InterpreterNow a Next Generation Text

InterpreterNow

Mae InterpreterNow yn wasanaeth i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain, i'w galluogi i gyfathrebu â phobl sy'n gallu clywed trwy ddehonglydd. Mae modd defnyddio InterpreterNow ar gyfrifiadur neu drwy ap InterpreterNow ar eich ffôn neu'ch tabled.

Gallwch chi ddefnyddio 111 GIG Cymru trwy InterpreterNow yn www.interpreternow.co.uk/nhs111wales

Mae gwybodaeth ar y wefan hefyd am sut i lawrlwytho ap InterpreterNow ar eich ffôn clyfar neu dabled hefyd.

Mae InterpreterNow ar gael saith diwrnod yr wythnos rhwng 8am a chanol nos.

Y tu allan i'r oriau hyn, cysylltwch â Next Generation Text (isod) sydd ar gael 24 awr y dydd.

Next Generation Text

Os na allwch chi glywed na siarad ar y ffôn, mae gwasanaeth Next Generation Text ar gael i'ch helpu i chi.

Mae gwasanaeth Next Generation Text ar gael 7 diwrnod yr wythnos, 24 awr y dydd.

Gallwch chi ddefnyddio NGT i ddefnyddio gwasanaeth 111 GIG Cymru trwy ffonio 18001 111 o ffôn testun.

Gallwch chi ddefnyddio NGT ar ffôn clyfar, tabled, cyfrifiadur neu wrth wneud galwad ffôn hefyd. Mae rhagor o wybodaeth am NGT ar eu gwefan - www.ngts.org.uk